# Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021

**2021 dsc 3**

*Rhoi hysbysiad y landlord a thynnu'r hysbysiad yn ôl*

## 8 Tynnu hysbysiad o dan adran 173 ac o dan gymal terfynu'r landlord yn ôl

(1) Mae Deddf 2016 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 180 (terfynu contract yn dilyn hysbysiad y landlord), yn is-adran (3), yn lle'r geiriau o ", cyn i'r contract ddod i ben" hyd at y diwedd, rhodder "—

(a) yw'r landlord, cyn i'r contract ddod i ben, ac yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad, yn tynnu'r hysbysiad yn ôl drwy roi hysbysiad pellach i ddeiliad y contract, neu

(b) cyn i'r contract ddod i ben, ac ar ôl y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad—

(i) yw'r landlord yn tynnu'r hysbysiad yn ôl drwy roi hysbysiad pellach i ddeiliad y contract, a

(ii) nad yw deiliad y contract yn gwrthwynebu mewn ysgrifen i'r tynnu'n ôl cyn diwedd cyfnod rhesymol."

(3) Yn adran 201 (terfynu contract o dan gymal terfynu'r landlord), yn is-adran (3), yn lle'r geiriau o ", cyn i'r contract ddod i ben" hyd at y diwedd rhodder "—

(a) yw'r landlord, cyn i'r contract ddod i ben, ac yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad, yn tynnu'r hysbysiad yn ôl drwy roi hysbysiad pellach i ddeiliad y contract, neu

(b) cyn i'r contract ddod i ben, ac ar ôl y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad—

(i) yw'r landlord yn tynnu'r hysbysiad yn ôl drwy roi hysbysiad pellach i ddeiliad y contract, a

(ii) nad yw deiliad y contract yn gwrthwynebu mewn ysgrifen i'r tynnu'n ôl cyn diwedd cyfnod rhesymol."

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021, Adran 8. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 8 mewn grym ar 7.6.2021, gweler **a. 19(3)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021, Adran 8.